Newyddlen Rhifyn 3 Hydref 2007

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Dyma drydydd rhifyn newyddlen newydd CCAUC. Ynddi cewch wybodaeth ar ddatblygiadau newydd a diweddar mewn cyllido addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys cysylltiadau ag eitemau newyddion a chylchlythyrau. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o rai o'r penderfyniadau allweddol a gymerwyd yng Nghyfarfodydd y Cyngor.

- Bydd clicio ar eitem yn y mynegai isod yn mynd â chi i stori yn y newyddlen.
- Bydd clicio ar stori yn y newyddlen yn mynd â chi i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Cysylltwch ag Emma Raczka ar 029 2068 2225 neu yn emma.raczka@hefcw.ac.uk os hoffech chi gael y newyddlen hon mewn fformat wahanol, fel testun mawr neu Braille.

Yn y rhifyn hwn

➔ Myfyrwyr Cymru'n mynegi bodlonrwydd â'u cyrsiau	➔ Cyfarfodydd Cyngor CCAUC	➔ Ymgynghori ar Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC	➔ Taliadau premiwm cyfrwng Cymraeg	➔ Safonau adeiladu cynaliadwy
➔ Ehangu mynediad i addysg uwch	➔ Adolygu polisi ymchwil	➔ Dadansoddi sefyllfa ariannol y sector AU 2005/06	➔ Gweithio gyda phartneriaid: digwyddiadau	➔ Cynhadledd ymgynghori ar strategaeth e-ddysgu i addysg uwch yng Nghymru.
➔ Rhaglen Cefnogi Proffesiynoldeb yn Nerbyniadau (SPA)	➔ Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang (PSBA) Cymru	➔ Dyraniadau cyllido ym mlwyddyn academaidd 2006/07	➔ Cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr rhan-amser 2007/08	➔Gwybodaeth am CCAUC

Myfyrwyr Cymru'n mynegi bodlonrwydd â'u cyrsiau

Cyhoeddwyd canlyniadau'r trydydd Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol blynyddol ar draws y DU (NSS) ar 12 Medi 2007. Dangosant fod y rheiny sydd mewn addysg uwch yng Nghymru yn dal i brofi lefel uchel o fodlonrwydd â'u profiad fel myfyrwyr.

Dangosodd NSS 2007 fod 83 y cant o fyfyrwyr yng Nghymru'n fodlon â'u profiad, a oedd yn dal i fod yn uwch na'r ganran ar gyfer y DU yn gyffredinol.

Roedd cysondeb canlyniadau uchel eleni hefyd yn cyd-fynd â gwella canlyniadau o ran cymorth academaidd ac adnoddau dysgu .

Mae canlyniadau Cymru wedi arddangos sefydlogrwydd am y tair blynedd y cynhaliwyd yr arolwg ynddynt.

Meddai Prif Weithredwr CCAUC, Yr Athro Philip Gummett: "Unwaith eto, mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol wedi cadarnhau, a hynny'n annibynnol, lefel uchel o fodlonrwydd ag addysg uwch yng Nghymru. Dengys hyn fod prifysgolion a cholegau yng Nghymru'n cymryd o ddifrif eu swyddogaeth wrth ddarparu profiad sy'n talu i fyfyrwyr."

Yn debyg i weddill y DU, cofnodwyd y lefelau isaf o fodlonrwydd unwaith eto ar gyfer asesu ac adborth, a 61% o fyfyrwyr yn unig yn mynegi bodlonrwydd yn y categori hwn o gwestiynau. Yng Nghymru, mae asesu unwaith eto'n faes gwella sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer Academi Addysg Uwch 2007/08, ac rydym yn annog sefydliadau i weithio gyda'r Academi i hybu'r agwedd hon ar brofiad myfyrwyr.

Bydd y canlyniadau ar gael ar www.unistats.com pan fydd y paratoadau ar gyfer y safle'n gyflawn.

←yn ôl

Cyfarfodydd Cyngor CCAUC

Cyfarfu'r Cyngor ar 19 Medi a 18 Hydref 2007. Mae'r newyddlen hon yn cynnwys newyddion ar rai o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfodydd hynny.

Bydd y Cyngor yn cyfarfod nesaf ar 7 Rhagfyr 2007.

←yn ôl

Ymgynghori ar Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC

Yn ystod yr haf, gofynnom am farn pobl ar sut y dylem ddefnyddio ein Cronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Gwnaed hyn yng nghyd-destun ymrwymiad penaethiaid Sefydliadau Addysg Uwch, trwy AUC (Addysg Uwch Cymru), i sefydlu fframwaith strategol ar draws y sector ar gyfer addysg uwch cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cynllun datblygu cenedlaethol. Arweinir y gwaith hwn gan Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (GSAU CC), sy'n cynnwys cynrychiolaeth o reolwyr uwch yr holl sefydliadau addysg uwch.

Rydym am sicrhau bod y Gronfa'n cael ei defnyddio'n strategol i gefnogi datblygiad ac ehangiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'r cynllun datblygu cenedlaethol. Byddwn yn rhoi gwybod i'r sector am ganlyniadau'r ymgynghori yn y man ac yn trafod camau pellach yng nghyfarfod nesaf GSAU CC.

←yn ôl

Taliadau premiwm cyfrwng Cymraeg

Rydym wedi rhoi canllawiau diwygiedig ynghylch:

- dychwelyd data ystadegol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), sy'n casglu, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth fesurol am addysg uwch yn y DU.; a
- sut y caiff y data hynny eu defnyddio gan CCAUC i benderfynu dynodiadau premiwm cyfrwng Cymraeg.

Daw hyn yn sgil gwaith a gyflawnwyd yn 2006 ynglŷn â'r gost o ddarparu modylau AU trwy gyfrwng y Gymraeg ac ymgynghori â'r sector ynghylch diweddaru'r canllawiau blaenorol.

Mae HESA'n casglu, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth fesurol am addysg uwch yn y DU.

←yn ôl

Safonau adeiladu cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targed o sicrhau y bydd pob adeilad newydd a adeiladwyd yng Nghymru ar ôl 2011 yn 'hollol ddi-garbon'.

Fel cam cyntaf at fodloni'r uchelgais hon, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi cyngor ynglŷn â phrosiectau adeiladu newydd a ariennir neu a gynorthwyir gan arian cyfalaf a ryddhawyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys arian a ryddhawyd gan CCAUC neu gyrff eraill a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad i'r sefydliadau addysg uwch. Mae'r weithdrefn newydd yn gofyn bod:

- Pob adeilad newydd yn cyrraedd safon 'ardderchog' yn ôl Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) yn gyffredinol pan gaiff ei asesu ar ôl ei gwblhau; a
- O leiaf 10% o holl werth y deunyddiau adeiladu a ddefnyddir yn deillio o gynnwys sydd wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio.

Bydd CCAUC yn gweithio gyda'r sector a chyrff cyllido AU eraill yn y DU i gynorthwyo sefydliadau i fodloni'r safonau newydd a gwneud gwelliannau pellach i'w cynaladwyedd yn unol â dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

←yn ôl

Ehangu mynediad i addysg uwch

Rhoddom adborth yn ddiweddar i sefydliadau ynghylch nifer o adroddiadau ynglŷn ag ehangu mynediad ac anabledd a chadarnhau'r cyllid ar gyfer strategaeth ehangu mynediad sefydliadau ar gyfer blwyddyn 2007/08.

Cadarnhaodd hyn fod:

- Y rhan fwyaf o sefydliadau yn defnyddio dangosyddion perfformiad HESA i feincnodi perfformiad o ran ehangu mynediad.
- Redd rhai sefydliadau'n cynnwys rhagolygon ymlaen at 2008/09. Fodd bynnag, roedd rhan fwyaf y sefydliadau wedi pennu targedau ar gyfer 2006/07 yn unig.
- Roedd y rhan fwyaf o strategaethau'n darparu amrywiaeth eang o ddarpariaeth i 'bob oedran'. Mae enghreifftiau da o gydlynu cynnydd rhwng gweithgareddau ehangu mynediad yn y sefydliadau a gweithgareddau partneriaeth *Ymgyrraedd yn Ehangach*.
- Roedd camau i wella'r gallu i gadw gweithwyr yn rhan bwysig o bob strategaeth ehangu mynediad.
- Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n cydnabod bod gwaith i gynorthwyo'r sawl sy'n gadael gofal yn ei ddechreuadau, ac mae cynlluniau i ddatblygu'r gwaith hwn.
- Nid yw pob sefydliad yn gwneud y cysylltiad pwysig rhwng eu cynllun darparu anabledd a'u Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd (DES).

←yn ôl

Adolygu polisi ymchwil

Sefydlodd CCAUC Grŵp Trafod Ymchwil i gynorthwyo adolygu'r polisi ymchwil. Cymaint fu gwerth y Grŵp nes i'r Cyngor benderfynu sefydlu grŵp trafod ymchwil a fydd yn barhaol ac ystyriodd gyfansoddiad y grŵp newydd a'i delerau gorchwyl yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Yn gynharach yn yr haf, soniom am ganlyniadau'r adolygiad, gan gynnwys adolygiad diwygiedig o amcanion ein polisi a'r fframwaith bras ar gyfer cyllido cynorthwyol. Y cam nesaf yw adolygu ac addasu manylion gweithredol ein dull o gyllido ymchwil ac rydym yn bwriadu rhoi rhagor o wybodaeth i'r sector yng ngwanwyn 2008

←yn ôl

Dadansoddi sefyllfa ariannol y sector AU 2005/06

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am sefyllfa ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru bob blwyddyn.

Mae sefydliadau AU yn dychwelyd datganiadau ariannol wedi'u harchwilio i CCAUC bob blwyddyn. Mae'r datganiadau hyn yn rhoi cipolwg i ni o gyllid sefydliadau mewn unrhyw flwyddyn arbennig ac yn caniatáu inni asesu a monitro eu hiechyd ariannol er mwyn sicrhau nad oes perygl i arian cyhoeddus ac asedau sydd wedi'u hariannu'n gyhoeddus.

Hysbysodd Cylchlythyr W07/33HE, a gafodd ei gyhoeddi fis Awst 2007, sefydliadau o ddangosyddion perfformiad iechyd ariannol ar gyfer y sector AU yng Nghymru yn seiliedig ar gyfriflenni ariannol archwiliedig 2005/06, y diweddaraf i gael eu cyhoeddi.

←yn ôl

Gweithio gyda phartneriaid

Rydym ni'n gweithio gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac ystod o gyrff er mwyn cyflawni ein rôl

←yn ôl

O'r Ymylon i'r Brif Ffrwd: cynhadledd ymgynghori ar strategaeth e-ddysgu i addysg uwch yng Nghymru.

Mae CCAUC yn ariannu cynhadledd fawr am ddim ar y cyd â'r Academi Addysg Uwch a Phwyllgor Cefnogi Cyd Wybodaeth Canolfan Gefnogaeth Ranbarthol Cymru. Bydd y gynhadledd yn cynnig cyfle i gyfranogwyr fynegi barn ar *Strategaeth E-ddysgu i Addysg Uwch yng Nghymru*. Bydd hi hefyd yn cynnig rhaglen lawn o siaradwyr o brifysgolion a sefydliadau e-ddysgu ar draws y DU, gan roi sylw i'r themâu hyn:

- E-ddysgu ac addysgeg
- E-asesu
- Ehangu cyfranogaeth
- Arloesi ym maes E-ddysgu
- Gwagleoedd dysgu – ffisegol a rhithwir

Cynhelir y gynhadledd ar ddydd Mawrth 13 Tachwedd 2007, 9.30 am – 16.30 pm yng Ngwesty Metropole, Llandrindod. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mynychu'r gynhadledd lenwi'r ffurflen archebu ar-lein.

←yn ôl

Oeddech chi'n gwybod?

Mae tua thri chwarter o fyfyrwyr sydd wedi'u cartrefu yng Nghymru neu fyfyrwyr o sefydliadau Cymreig a enillodd gymwysterau AU o SAUau yn 2005/06, wedi ffeindio rhyw fath o waith. Tybir bod 5% yn ddi-waith, gyda mwyafrif y gweddill yn astudio'n unig.

Rhaglen Cefnogi Proffesiynoldeb yn Nerbyniadau (SPA) Rhagfyr 2007

Mae SPA yn darparu tystiolaeth a chanllawiau ar gyfer arfer da mewn derbyniadau teg. Mae'n helpu SAUau i gynnal rhagoriaeth a phroffesiynoldeb mewn derbyniadau, recriwtio myfyrwyr a lledaenu cyfranogaeth. Caiff ei chyllido gan holl gyrff cyllido'r DU, gan gynnwys CCAUC.

Un o weithgareddau allweddol SPA yw ymweld â SAUau. Ers ei sefydlu yn 2006, mae SPA wedi ymweld â phum SAUau yng Nghymru, ac yn bwriadu ymweld â mwy. Mae Cyfarwyddwr SPA yn mynychu Grŵp Sefydlog Cymru sy'n cael ei drefnu gan UCAS ac mae'r corff mewn cysylltiad parhaus â CCAUC, Addysg Uwch Cymru a SAUau trwy gydol y wlad. Mae hefyd yn rhan o Dîm Cynghori AU Bagloriaeth Cymru.

Ym mis Rhagfyr, bydd SPA yn cynnal cynhadledd fawr i ymarferwyr derbyniadau yng Nghymru. Gallwch ddarganfod manylion pellach maes o law ar www.spa.ac.uk neu drwy e-bostio enquiries@spa.ac.uk.

←yn ôl

Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang (PSBA) Cymru

Ymhlith y buddiolwyr cynharaf yn yr ymgais i greu isadeiledd band eang gwell a chyflymach fydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Mae prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang (PSBA) Cymru – y prosiect mwyaf o'i fath yn y DU – yn creu isadeiledd band eang newydd, cyflymder uchel ar gyfer mwy na 1,000 o leoliadau ar hyd a lled y wlad. Caiff ei adeiladu a'i reoli gan Logicalis UK Cyf.

Drwy agregu ac integreiddio anghenion, cyflymderau a phorthwyr addysg uwch, GIG Cymru, llywodraeth leol a defnyddwyr eraill band eang o fewn sector cyhoeddus, mae'r prosiect yn defnyddio buddion graddfa aruthrol er mwyn creu un rhwydwaith unedig i ategu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae JANET, sy'n cyflwyno gallu a gwasanaethau band eang i'r sector academaidd, yn un o bartneriaid a 'chwsmeriaid' cyntaf pwysig PSBA. Caiff y rhwydwaith newydd ei lansio'n ffurfiol yn gynnar ym mis Rhagfyr. Yn y cyfamser, cysylltwch â Brian Moon yn psba@wales.gsi.gov.uk am fwy o wybodaeth.

←yn ôl

Dyraniadau cyllido ym mlwyddyn academaidd 2006/07

Ym mis Awst, cyhoeddwyd manylion grantiau addysgu, ymchwil a chyfalaf a ddosbarthwyd gan CCAUC i sefydliadau addysg uwch (SAUau), a cholegau addysg bellach (CAB) yng Nghymru a dderbyniodd arian uniongyrchol, yn ystod blwyddyn academaidd 2006/07, sy'n rhedeg o 1 Awst i 31 Gorffennaf.

←yn ôl

Cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr rhan-amser 2007/08

Dros yr haf, cyhoeddwyd dyraniadau ar gyfer cyllid pellach i gefnogi myfyrwyr rhan-amser yn 2007/08. Amcan yr arian yw cynnal a chryfhau rhaglenni rhan-amser, ffocysu ar ehangu mynediad i addysg uwch ac estyn cysylltiadau â chyflogwyr wrth ddarparu cyrsiau rhan-amser.

Mae cronfa flynyddol o £6.4m wedi'i neilltuo dros y tair blynedd nesaf. Caiff £4.4m o'r arian hwn ei ddefnyddio i helpu i ehangu mynediad i AU i fyfyrwyr rhan-amser. Caiff y £2 filiwn sydd dros ben ei ddefnyddio i gryfhau ymrwymiad SAU gyda chyflogwyr i ddarparu addysg uwch rhan-amser.

.

←yn ôl

Trefniadaeth CCAUC

Fel mae angen i bob sefydliad ei wneud o bryd i'w gilydd, rydym yn adolygu strwythur mewnol CCAUC. Rydym yn anelu at gael:

- Strwythur sy'n gallu ymateb i ddatblygu'r agenda addysg uwch yng Nghymru;
- Cymhwysedd cryfach i ddelio â materion iechyd sefydliadol a chynaliadwyedd;
- Mwy o ymrwymiad strategol gyda SAU, yn unigol a chasgliadol.

Yn weithredol, mae hyn yn golygu ail-gydbwyso cefnogaeth uwch reolwyr i'r Prif Weithredwr, integreiddio swyddogaethau perthnasol gwell a gwneud timau'n fwy hyblyg. Cafodd swydd newydd y Cyfarwyddwr Datblygiad Strategol ei hysbysebu ym mis Medi, gyda'r cyfweliadau'n cymryd lle ar ddiwedd mis Hydref.

←yn ôl

Oeddech chi'n gwybod?

Ym mlwyddyn academaidd 2005/06 roedd yna 13 o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gyda chyfanswm incwm o £922m. Daeth 41.6% o'r cyfanswm trwy CCAUC.

Cyfarfodydd a digwyddiadau sydd ar ddod

Cyfarfodydd cyhoeddus blynyddol HEFCW – Rhagfyr 2007

Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru
24 Ionawr 2008, Gwesty'r Marriott Caerdydd
Addysg uwch yng Nghymru – gweithio ar draws ffiniau.

Cysylltwch â joan.thomas@wales.gsi.gov.uk am fraslun o'r agenda a ffurflen archebu.

←yn ôl

Cynlluniau Statudol sydd ar gael ar ein gwefan

Ewch i:
Cynllun Iaith Gymraeg
Cynllun Cydraddoldeb Anabledd
Cynllun Cydraddoldeb Hiliol
Ffurf Ddrafft Cynllun Cydraddoldeb Rhyw

←yn ôl

Cyhoeddiadau diweddar neu sydd ar ddod

Cylchlyrhyr W07/42HE: *Enhancing Learning and Teaching through Technology: a Strategy for Higher Education in Wales* (Saesneg yn unig)

←yn ôl

Nod CCAUC

Ein nod yw hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru o'r radd flaenaf, er lles unigolion, cymdeithas a'r economi, yng Nghymru ac yn ehangach.

Amdanom ni

Mae CCAUC yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn dosrannu arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn 11 sefydliad addysg uwch.

Rydym hefyd yn cyllido gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru a chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Nid ydym yn cyllido myfyrwyr yn uniongyrchol. ←yn ôl

Trwy system gyllido agored ac amlwg, rydym yn canolbwyntio ein cefnogaeth i'r sector ar:

- hyrwyddo **datblygiad dysgu ac addysgu**,yn arbennig ansawdd y profiad dysgu;
- buddsoddi mewn sail **ymchwil** gadarn a datblygu rhagoriaeth ymchwil;
- annog gweithgareddau mewn addysg uwch sy'n cefnogi **busnes a'r gymuned**;
- **ehangu mynediad** at addysg uwch;
- cefnogi datblygiad addysg uwch yn **yr iaith Gymraeg**;
- **cryfhau'r sector** – gyda phwyslais ar annog ailgyflunio a chydweithredu, cynaladwyedd ariannol, arweinyddiaeth a threfn lywodraethol effeithiol, datblygiadau Ewropeaidd a rhyngwladol, a chynnal yr ystad; ac
- achredu a chyllido darparwyr cyrsiau **hyfforddiant cychwynnol athrawon** yng Nghymru.

←yn ôl

Yn ychwanegol at ei gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllido,
dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

←yn ôl

www.hefcw.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r materion yn y newyddlen hon, neu unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yng Nghymru, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** neu ffonio **029 2076 1861.**

I **dynnu'ch enw oddi ar restr danysgrifio'r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** gyda'r geiriau 'tynnu enw tanysgrifio i'r newyddlen'yn y blwch pwnc.

I gael cyngor am gyllid ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru, ewch i **Cyllid Myfyrwyr Cymru.** ←yn ôl

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw